# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 25 Ionawr 2021

Amser: 08.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddArchwilio@senedd.cymru

## (Rhag-gyfarfod preifat)

(09.00 - 09.15)

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.15)

## 2 Rhwystrau rhag Gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus: Sesiwn dystiolaeth 7

(09.15 - 10.30) (Tudalennau 1 - 5)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

Pedr ap Llwyd - Prif Weithredwr a Llyfrgellydd

David Michael - Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd (Adnoddau Corfforaethol

**Amgueddfa Genedlaethol Cymru**

David Anderson - Cyfarwyddwr Cyffredinol

Nia Williams - Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus

Kath Davies - Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**(Egwyl)**

(10.30 - 10.40)

## 3 Rhwystrau rhag Gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus: Sesiwn dystiolaeth 8

(10.40 - 12.10)

**Cyfoeth Naturiol Cymru**

Clare Pillman - Prif Weithredwr

Sian Williams - Pennaeth Gweithrediadau ar gyfer Gogledd-orllewin Cymru

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

Tegryn Jones - Prif Weithredwr

Mair Thomas - Cydlynydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth

**Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Tracey Cooper - Prif Weithredwr

Yr Athro Mark Bellis - Cyfarwyddwr Polisi ac Iechyd Rhyngwladol a Chanolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant

Sumina Azam - Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd

## 4 Papur(au) i'w nodi

(12.10 - 12.15)

**4a Rhaglen cael gwared ar Asbestos o Ysbyty Glan Clwyd & Trefniadau ar gyfer Penodi Uwch Aelodau o Staff Dros Dro - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Llythyr Ymateb gan Brif Weithredwr Dros, BIPBC (16 Rhagfyr 2020)**

(Tudalennau 6 - 20)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

(12.15)

Eitem 6

## 6 Rhwystrau rhag Gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(12.15 - 12.30)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
University Health Board

Bloc 5, Llys Carlton, Parc Busnes Llanelwy,
Llanelwy, LL17 0JG
----------------------------------
Block 5, Carlton Court, St Asaph Business
Park, St Asaph, LL17 0JG

Mr Nick Ramsay MS
Chair
Public Accounts Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

**Ein cyf / Our ref:** GH/LJ/DL/2761
**Eich cyf / Your ref:**
☎**:** 01745 448788 ext 6364
**Gofynnwch am / Ask for:** Dawn Lees
**E-bost / Email:** Dawn.Lees@wales.nhs.uk
**Dyddiad / Date:** 16eg Rhagfyr 2020

Annwyl Mr Ramsay

**Parthed: Adroddiadau Archwiliwr Cyffredinol Cymru: Trefniadau ar gyfer Penodiadau Uwch Staff Dros Dro ac Adnewyddu Ysbyty Glan Clwyd**

Diolch am eich gohebiaeth, dyddiedig 6 Tachwedd 2020 ynghylch yr adroddiadau uchod. Yn dilyn eich cais, atodaf ymateb y Bwrdd Iechyd i ymholiadau'r Pwyllgor.

Mae croeso i chi gysylltu â mi pe bai arnoch angen mwy o wybodaeth.

Yn gywir

**Gill Harris**
**Prif Weithredwr Dros Dro**
**Acting Chief Executive**

Amg

**Cyfeiriad Gohebiaeth ar gyfer y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr / Correspondence address for Chairman and Chief Executive:**
Swyddfa'r Gweithredwyr / Executives' Office
Ysbyty Gwynedd, Penrhosgarnedd
Bangor, Gwynedd LL57 2PW
**Gwefan:** www.pbc.cymru.nhs.uk **/ Web:** www.bcu.wales.nhs.uk

**Ymateb i faterion a godwyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus mewn perthynas ag Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru:**

***Trefniadau ar gyfer Penodi Staff Dros Dro - BIPBC***

C. *Beth yw'r sefyllfa bresennol o ran dibyniaeth y Bwrdd Iechyd ar ddefnyddio uwch aelodau o staff dros dro (niferoedd cyffredinol, y rolau perthnasol a hyd y penodiadau hyn) ac a yw'r ddibyniaeth honno wedi cynyddu neu ostwng dros y 12 mis diwethaf?*

*Byddem hefyd yn croesawu eich myfyrdodau ar unrhyw heriau penodol yr ydych yn dal i'w hwynebu wrth recriwtio uwch aelodau o staff a'r effaith y mae natur gyfnewidiol rhai rolau uwch wedi'i gael ar allu'r Bwrdd Iechyd i symud ymlaen.*

A. Amlinellir y sefyllfa bresennol yn ymwneud ag uwch aelodau o staff dros dro yn y tabl isod.

| Rôl Gyffredinol | Niferoedd | Hyd | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| Cymorth gyda Rhaglen Pandemig COVID-19 yn cynnwys TTP/brechu/achosion | 8 | 12 mis<br>6 mis | Mae arbenigedd rhaglen wedi bod yn hollbwysig i gyflwyno ffrydiau allweddol fel rhan o'r ymateb i Bandemig COVID-19. |
| Gwella Gofal wedi'i Gynllunio | 2 | 12 mis | Cynllun recriwtio ar gyfer penodiadau parhaol ar waith |
| Arwain/llywodraethu gweithredol | 4 | 6 mis | Cynllun recriwtio ar gyfer penodiadau parhaol ar waith |

Tra bod y ddibyniaeth ar uwch staff dros dro wedi lleihau ar gyfer uwch rolau gweithredol craidd yn dilyn nifer o benodiadau allweddol e.e. Cyfarwyddwyr Gofal Llym Safle, mae gofyn parhaus am gefnogaeth rheoli rhaglenni fel rhan o reolaeth Pandemig COVID-19.

Yn ogystal, mae nifer fechan o benodiadau dros dro wedi eu gwneud yn ddibynnol ar benodiad parhaol i rolau newydd e.e. Cyfarwyddwr Llywodraethu.

Mae penodiadau parhaol wedi'u gwneud i nifer o'r rolau a oedd ar sail dros dro yn flaenorol, yn fwyaf nodedig uwch arweinyddiaeth o ran safleoedd ysbyty llym. Fodd bynnag, mae recriwtio a chadw staff ar lefelau uwch reoli a gweithredol yn parhau i fod yn her. Bydd Prif Weithredwr newydd, ynghyd â'r camau a gymerwyd i gydnabod y gwaith a wneir gan y Bwrdd Iechyd ac i gefnogi mwy o ffocws ar welliant

strategol yn cyd-fynd â chyflwyno’r rhaglen *Cymru Iachach*, yn ein galluogi i gyfleu gweledigaeth gymhellol ar gyfer y dyfodol. Nid oes amheuaeth y bydd hyn o gymorth, nid yn unig i atynnu a chadw arweinwyr o safon uchel, ond hefyd i ddatblygu talent ar draws y sefydliad fel rhan o gynllunio olyniaeth hanfodol a gwytnwch.

C. *Pam na cheisiwyd cyngor y tîm caffael yn brydlon, yn fwyaf amlwg yn achos y cyfarwyddwr adfer dros dro, a pha gamau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u cymryd i adolygu ac atgyfnerthu ei brosesau lle bo'n berthnasol, i fynd ar drywydd unrhyw gamau lliniaru neu i sicrhau nad yw'r problemau a ganfuwyd yn yr achosion hyn o ganlyniad i fethiannau yn y broses ehangach.*

A. Roedd gan y Bwrdd Iechyd broses ar waith i benodi gweithwyr asiantaeth dros dro a chafodd y broses hon ei dilyn. Roedd y broses wedi cael ei datblygu gyda budd cyngor ar gaffael.

Mae'r broses ddiwygiedig yn cynnwys cael cytundeb gan Gyfarwyddwyr Gweithredol Cyllid a Gweithlu cyn cyfathrebu ag asiantaethau o dan y Fframwaith. Mae hyn yn gyfle i dynnu sylw at unrhyw amgylchiadau eithriadol lle bo angen arbenigedd caffael ychwanegol ac i gymryd camau yn hyn o beth.

*C. O ystyried y pwysau ariannol ehangach ar y Bwrdd Iechyd, sut oedd yn bwriadu defnyddio'r £350,000 a dderbyniodd gan Lywodraeth Cymru tuag at gost y Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro pe na bai hyn wedi cael ei gymeradwyo a pha effaith a allai hynny fod wedi'i gael ar feysydd gweithgarwch eraill?*

A. Gwnaeth y Bwrdd Iechyd ystyried y goblygiad ariannol a oedd ynghlwm wrth gost y Cyfarwyddwr Adfer a phe na bai'r cyllid wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru (LlC), byddai wedi cael ei ymgorffori i'r rhaglen arbedion fel cost gyflenwi a byddai'r targed arbedion ar gyfer y flwyddyn wedi cael ei gynyddu i fantoli'r gost ychwanegol fel na fyddai'n effeithio ar wasanaethau clinigol.

C. *A yw'r Bwrdd Iechyd yn dal i gredu bod cyfradd ddyddiol a chostau cyffredinol y Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro yn cynrychioli gwerth da am arian i drethdalwyr yng Nghymru?*

Dangosodd y diwydrwydd dyladwy a gymerodd y Bwrdd Iechyd ar adeg y penodiad fod y gyfradd a dalwyd yn unol â chyfradd y farchnad a gwnaeth y Cyfarwyddwr Adfer ddarparu uwch arbenigwr profiadol ym maes adfer ariannol ar gyfer y Bwrdd Iechyd, a oedd yn ategu cyflwyno'r rhaglen arbedion yn 2019/20.

C. *A yw'r Bwrdd Iechyd yn gallu amlinellu unrhyw enghreifftiau penodol o adenillion ariannol neu berfformiad y gellir eu priodoli i waith y Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro?*

A. Gwnaeth y Cyfarwyddwr Adfer roi cyfundrefn gadarn o ran llywodraethu ac atebolrwydd ar waith gyda rheolyddion rheoli ychwanegol er mwyn caniatáu canfod arbedion a'u cyflawni ar draws y Bwrdd Iechyd. Gyda chymorth Swyddfa Reoli Rhaglen ehangach, gwnaeth yr ymagwedd hon arwain at gamau sylweddol o fewn Uwch Adrannau ac mewn ffrydiau gwaith dan arweiniad Cyfarwyddwyr Gweithredol, gan arwain at ganfod arbedion ychwanegol a'u cyflawni.

Arweiniodd yr her a'r ffocws ychwanegol yma at sicrhau arbedion ychwanegol sylweddol mewn meysydd fel gweithlu, rhagnodi, gofal iechyd parhaus, dychwelyd cleifion a phecynnau gofal, caffael a rheolaeth gyllidebol.

Yn ystod y cyfnod o 1 Gorffennaf hyd at ddiwedd Mawrth 2020, adroddodd y rhaglen bortffolio cynyddol o gynlluniau penodol, gydag uchafswm o £49m. Ar ddiwedd y flwyddyn, cyflawnwyd arbedion o £35.5m, gyda 70% o'r arbedion hyn yn cael eu cofnodi fel rhai cylchol.

*C. Pa newidiadau sydd wedi'u gwneud, boed hynny o ran capasiti neu drefniadau llywodraethu, i sicrhau bod unrhyw fomentwm a sicrhawyd gan y Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro wedi'i gynnal ers ei ymadawiad?*

A. Dechreuodd y pandemig COVID-19 effeithio ar y Bwrdd Iechyd ym mis Mawrth 2019/20 a rhoddwyd y gorau i'r rhaglen arbedion, yr adnoddau cysylltiedig â'r fframwaith llywodraethu. Mae hyn wedi lleihau’r arbedion a gyflawnwyd neu’r faint y disgwyliwyd i’w arbed yn ystod 2020/21 yn sylweddol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau ar y broses gynllunio ar gyfer 2021/22 a chaiff yr arfer gorau a ddysgwyd o wersi'r rhaglen adfer eu hymgorffori i'r rhaglen arbedion diwygiedig; roedd y rhaglen adfer yn darparu gafael, rheolaeth a her i wariant y sefydliad ac yn rhoi rhaglen arbedion trwyadl ar waith. Cafodd hyn ei ategu gan raglen gwella ariannol, gyda dulliau llywodraethu, adrodd ac atebolrwydd mwy cadarn yn cael eu rhoi ar waith.

C. *Y tu hwnt i rôl y Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro, a yw'r Bwrdd Iechyd yn gallu mesur y costau ychwanegol ehangach sydd wedi codi dros y blynyddoedd diwethaf mewn ymdrech i weddnewid ei sefyllfa ariannol a/neu ei berfformiad yn gyffredinol?*

A. Gwnaeth y Bwrdd Iechyd gomisiynu adolygiad ariannol annibynol yn 2019/20 a gynhaliwyd gan PwC, contract gwerth £485,755. Mae rhai prosiectau allanol wedi'u comisiynu hefyd i adolygu cyfleoedd gwella perfformiad, mewn Gofal Eilaidd, yn bennaf.

C. *Pryd allwn ni ddisgwyl gweld strategaeth ariannol glir a fydd yn cyflwyno gwasanaethau iechyd sy'n gynaliadwy'n ariannol yng Ngogledd Cymru a sut olwg sydd ar sefyllfa’r Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn a’i ragolwg diwedd blwyddyn yn 2020-21 o ystyried effaith COVID-19?*

A. Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu strategaeth ariannol ar gyfer y tair blynedd nesaf a fydd yn ystyried y cymorth ariannol strategol a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 3 Tachwedd 2020, a chaiff ei chwblhau erbyn 31 Mawrth 2021.

Mae sefyllfa'r rhagolwg ariannol yn ystod y flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn yn adrodd sefyllfa gytbwys, yn bennaf oherwydd cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer COVID-19 a chymorth strategol ar gyfer y diffyg sylfaenol.

C. *Gan gydnabod ei fod yn cyflwyno ei heriau ei hun, a oes unrhyw wersi allweddol y mae'r Bwrdd Iechyd eisoes yn eu canfod o'r ffordd y bu'n rhaid iddo ymateb i COVID-19 a allai helpu i gryfhau ei ddulliau llywodraethu ac i ategu gweddnewid yn y dyfodol?*

A. Mae'r Bwrdd Iechyd yn falch o'r ymroddiad a'r ymrwymiad a ddangoswyd gan staff yn ystod y pandemig, a'u gwytnwch a'u trugaredd parhaus wrth i'r ail don barhau.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gallu ailgynllunio gwasanaethau a'r ystad yn gyflym er mwyn diwallu anghenion cleifion COVID-19 ac i ofalu amdanynt yn well. Mae technoleg ac arloesi wedi'u mabwysiadu ac erbyn hyn, mae angen i'r Bwrdd Iechyd eu datblygu ymhellach er mwyn gwella ansawdd ac effeithiolrwydd y gofal clinigol ehangach a ddarperir ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi llywodraethu ac atebolrwydd gwell ar waith yn ystod trydydd chwarter y flwyddyn a bydd yn parhau i adolygu llywodraethu ac i'w wella ar draws y sefydliad. Gan fod y Prif Weithredwr newydd yn ymuno â'r sefydliad ym mis Ionawr 2021, bydd y Bwrdd yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i ddatblygu system iechyd sy'n gynaliadwy yn ariannol.

**Ymateb i faterion a godwyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus mewn perthynas ag Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru:**

***Gwaith adnewyddu Ysbyty Glan Clwyd***

## Gwerthuso wedi prosiect

C. *Bu nifer o adroddiadau gan archwilwyr mewnol ac ymgynghorwyr annibynnol am agweddau amrywiol ar y prosiect dros y chwe blynedd diwethaf ac, gan ymateb i'r argymhellion a godwyd yn yr adroddiadau hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi trefniadau, strwythurau a phrosesau llywodraethu ar waith. Gan fod y prosiect wedi'i gwblhau erbyn hyn, byddem yn croesawu trosolwg o ba waith 'gwerthuso wedi prosiect' sydd wedi'i wneud a sut rydych wedi mynd ati i fyfyrio ar sut hwyl a gafwyd ar y prosiect, yn gyffredinol. Fel rhan o hyn, byddai o gymorth cael deall:*

• *Pwy fu ynghlwm wrth y broses fyfyrio hon, a sut rydych wedi cynnwys partïon allweddol, fel Partner y Gadwyn Gyflenwi, yr Ymgynghorydd Costau Allanol a Chydwasanaethau GIG Cymru?*

• *Sut allech rannu unrhyw wersi a ddysgwyd o'r prosiect ar draws GIG Cymru?*

A. Roedd disgwyl i Werthusiad Wedi Prosiect ffurfiol gael ei gynnal ym mis Mawrth 2020, 12 mis ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau. Oherwydd y pandemig, bu'n rhaid gohirio hyn a chaiff hyn ei gwblhau erbyn hyn yn ystod 2021. Caiff y gwerthusiad ei hwyluso gan Gydwasanaethau'r GIG a bydd yn cynnwys cynrychiolwyr staff a chleifion PBC ynghyd â'r rheolwr prosiect allanol, ymgynghorydd costau a phartner y gadwyn gyflenwi.

Yn y cyfamser, cafodd adroddiad "gwersi a ddysgwyd" ei rannu gyda Llywodraeth Cymru a GIG Cymru ym mis Hydref 2018, gan nodi gwersi posibl i sefydliadau sy'n gleientiaid yn dilyn yr adolygiad annibynnol o gymorth allanol a ddarparwyd ar gyfer y prosiect. Mae copi o'r adroddiad wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

## Gwerth am Arian

C. *O ystyried bod y prosiect wedi costio £60 miliwn yn fwy na'r gyllideb a gymeradwywyd yn y lle cyntaf, a yw'r Bwrdd Iechyd yn credu bod y £171 miliwn a wariwyd ar y prosiect yn cynrychioli gwerth da am arian i drethdalwyr Cymru? Fel rhan o hyn, byddai o gymorth pe gallech nodi:*

• *Sut mae'r prosiect wedi perfformio'n fwy cyffredinol yn erbyn ei amcanion ehangach?*

• *P'un a ydych o'r farn, pe bai'r costau llawn yn eglur o'r cychwyn cyntaf, y gallai hyn fod wedi arwain at benderfyniad gwahanol yn ymwneud â'r gwaith adnewyddu, fel adeiladu ysbyty cwbl newydd ar safle arall?*

A. Amcanion y prosiect, fel y'i diffinnir yn yr Achos Busnes Llawn, oedd:

1 Lliniaru risg cysylltiad ag asbestos i gleifion

2 Sicrhau cydymffurfiaeth statudol â'r Cod Tân

3 Darparu cyfleusterau a seilwaith modern, cost-effeithiol ac sy'n cydymffurfio â rheolau statudol

4 Hwyluso darparu model gofal iechyd sy'n caniatáu darparu gofal diogel a chynaliadwy

5 Ailgynllunio'r ysbyty i hwyluso gwella effeithlonrwydd clinigol.

Cafodd y prosiect ei gwblhau dros gyfnod o saith mlynedd ac arweiniodd at waredu dros 300,000 o dunnelli o wastraff halogedig, ac roedd yn cynnwys rhyw 420 o adleoliadau (yn amrywio o ystafelloedd unigol i adrannau cyfan). Cafodd hyn ei gwblhau'n llwyddiannus, dim ond bedwar mis yn hwyrach nag a fwriadwyd, heb unrhyw ddigwyddiadau diogelwch difrifol. Gwnaeth y prosiect gydymffurfio â phob un o hysbysiadau gwella'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac mae wedi sicrhau bod yr holl ysbyty'n bodloni'r holl ofynion cydymffurfiaeth statudol gan gynnwys y Cod Tân.

Mae'r prosiect wedi arwain at ailddatblygu'r ysbyty'n gyfan gwbl gan gynnwys theatrau ac adrannau llawdriniaeth o'r radd flaenaf, cwadrant triniaeth frys newydd, wardiau newydd ac adnewyddu'r gwasanaethau ysbyty presennol, adran batholeg newydd, uned gofal critigol newydd, cyfleusterau pelydr-x a chleifion allanol wedi'u hadnewyddu, a mannau cymunedol ac adran arlwyo newydd.

Roedd yr angen i symleiddio'r adeilad nes datgelu ei elfennau adeileddol yn caniatáu ailgynllunio'r holl adrannau ac i adolygu eu lleoliad er mwyn sicrhau bod modd eu cydleoli mor effeithiol â phosibl. Arweiniodd hyn at greu nifer o "barthau" triniaeth e.e. cwadrant achosion brys, theatrau a gweithredoedd, ac archwiliadau meddygol. Roedd yr ailgynllunio hefyd yn caniatáu cyflwyno ystafelloedd gwely en-suite unigryw, gwahanu'n well rhwng y rhywiau a mesurau gwell i ddiogelu rhag heintiau. Gwnaeth y cynllun newydd ategu modelau gofal newydd e.e. mannau cyraeddiadau llawdriniaeth ddydd a throsglwyddo gwasanaethau i leoliadau cymunedol, e.e. therapïau. Roedd hefyd yn caniatáu arloesi a gwella o ran gwasanaethau cymorth fel cyflwyno ceginau adfywio sydd wedi gwella profiad y claf ac wedi lleihau gwastraff yn sylweddol.

Er gwaethaf yr heriau ariannol, gwnaeth y Bwrdd Iechyd gwblhau prosiect cymhleth yn llwyddiannus a oedd yn unol â'r rhaglen i bob pwrpas, sydd wedi gwella'r cyfleusterau'n sylweddol a bydd yn cynnig amgylchedd a phrofiad gwell i gleifion a staff. Roedd ailddatblygu ysbyty gweithgar yn brosiect uchelgeisiol a chymhleth sydd wedi'i ystyried gan Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau mewn mannau eraill o'r DU oddi ar hynny fel enghraifft o sut i wneud gwelliannau eang yn llwyddiannus i safle ysbyty gweithgar.

Trwy gydol y prosiect, gwnaeth y Bwrdd Iechyd weithio'n galed i leihau costau ac i gwblhau'r gwaith ailddatblygu mewn ffordd mor gost-effeithiol â phosibl. Tra'r oedd y prosiect ymhell dros y gyllideb wreiddiol, mae'r Bwrdd Iechyd yn hyderus bod gwerth am arian wedi'i sicrhau o ran yr hyn a gyflawnwyd trwy'r prosiect:

- Cafodd pob un o'r cyfnodau cyllid (CE1 i 5) eu craffu a'u cytuno gyda Gwasanaethau Ystadau Arbenigol Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP-SES) cyn cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.
- Cafodd ymarfer meincnodi ei gynnal gan Ymgynghorwyr Costau yn 2015 i ategu'r cyflwyniadau cyllid hyn.
- Nododd yr adolygiad annibynnol a gynhaliwyd gan KPMG fod cadarnhad ynghylch gwerth y cyfnodau cyllid wedi'i gytuno gyda phartner y gadwyn gyflenwi, ynghyd â chraffu annibynnol ar yr amcanbrisiau gan Wasanaethau Ystadau Arbenigol, yn rhoi sicrwydd i Fwrdd y Prosiect a'r Bwrdd Iechyd bod yr amcanbrisiau'n rhoi cipolwg manwl-gywir ar gost y gwaith.
- Mae Gwasanaethau Archwilio Arbenigol Cydwasanaethau GIG Cymru wedi cynnal adolygiad o'r gyfran colled/elw ac archwilio tryloyw er mwyn dilysu'r gost derfynol o ganlyniad.

Yn 2007, gwnaeth rhagflaenydd Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych amcangyfrif mai £250 miliwn oedd cost adeiladu ysbyty newydd. Mae Ysbyty'r Grange yn Ne Cymru a gwblhawyd yn ddiweddar wedi costio rhyw £350m. Felly, mae'n rhesymol tybio y byddai adeiladu ysbyty newydd wedi costio rhyw £300m+ gan gynrychioli cynnydd sylweddol ar y gost derfynol ar £170.8m o ganlyniad.

**Craffu a chymeradwyo achosion busnes**

C. *Pa sicrwydd a allwch ei roi i'r Pwyllgor fod yr achosion busnes bellach yn destun adolygu a chraffu mewnol effeithiol cyn iddynt gael eu cymeradwyo a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru?*

• *Er enghraifft, sut mae unrhyw newidiadau i broses wedi'u cymhwyso ar achosion busnes mwy diweddar, fel prosiect seilwaith Ysbyty Maelor Wrecsam a phrosiect cyfalaf Ysbyty Brenhinol Alexandra, yn Y Rhyl?*

A. Yn 2015, yn dilyn comisiynu adolygiad allanol, gwnaeth y Bwrdd Iechyd roi strwythurau a phrosesau diwygiedig o ran llywodraethu a rheoli ar waith ar gyfer yr holl brosiectau cyfalaf. Roedd hyn yn cynnwys proses ddiwygiedig i wneud penderfyniadau, lefelau awdurdod a hierarchaeth adrodd o ran buddsoddi a'r broses datblygu, craffu a chymeradwyo achosion busnes.

Mae'r holl achosion busnes sydd â gwerth mwy na £1m bellach yn destun pedair lefel adolygu mewnol:

1. Adolygu gan gymheiriaid - gan uwch reolwyr nad ydynt yn gysylltiedig â'r prosiect (y Grwpiau Rheoli Gweithredol a Gwella Ystadau gynt a'r Grŵp Buddsoddi Cyfalaf erbyn hyn).
2. Adolygu a chraffu gan y Tîm Gweithredol llawn.
3. Adolygu a chraffu gan y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn cynnwys aelodau annibynnol.
4. Adolygu gan y Bwrdd Iechyd llawn.

Gall y Bwrdd Iechyd gadarnhau bod achosion busnes yn ddiweddar, gan gynnwys prosiect seilwaith Ysbyty Maelor Wrecsam ac ailddatblygu Ysbyty Brenhinol

Alexandra, wedi bod yn destun y broses adolygu uchod cyn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**Monitro ariannol o ran prosiectau**

C. *Pa gamau sydd wedi cael eu cymryd i wella monitro ariannol ac adrodd ar brosiectau cyfalaf yn y Bwrdd Iechyd ac i osgoi ailadrodd problemau o'r fath y ceir crynodeb ohonynt ym mharagraffau 52/53 a 73 o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol?*

A**.** Yn 2014, ar ôl canfod y problemau a restrwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, gwnaeth y Bwrdd Iechyd adolygu'r rheolyddion monitro a rheoli ariannol mewn perthynas â'r holl brosiectau cyfalaf. Cafodd prosesau eu hatgyfnerthu er mwyn sicrhau bod monitro ariannol yn cael ei gwblhau'n annibynnol gan yr Adran Gyllid a rhoddwyd adroddiadau rheolaidd i Bwyllgor Cyllid a Pherfformiad (F&P) y Bwrdd Iechyd.

Mewn ymateb i argymhellion yr archwilwyr mewnol ac adolygwyr annibynnol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno gofynion a threfniadau diwygiedig yn ymwneud ag adrodd ar gostau.

Caiff adroddiadau ar gostau a chynnydd eu paratoi'n annibynnol gan yr Ymgynghorydd Costau allanol a rheolwr y prosiect yn eu trefn ac adroddir ar y rhain bob mis i Fwrdd y Prosiect. Mae'r Ymgynghorydd Costau, Rheolwr y Prosiect a Phartneriaid y Gadwyn Gyflenwi oll yn aelodau o Fwrdd y Prosiect a chaiff eu hadroddiadau annibynnol eu hatodi hefyd i adroddiadau cynnydd misol y Bwrdd Iechyd i Lywodraeth Cymru.

Mae prosesau penderfynu clir a lefelau awdurdod dirprwyedig wedi cael eu cyflwyno. Mae angen i newidiadau gael eu hadrodd i Fwrdd y Prosiect, y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Bwrdd Iechyd yn unol â'r cynllun awdurdod dirprwyedig.

O ran rheoli ariannol, mae'r tabl canlynol yn crynhoi canlyniad yr holl brosiectau adeiladu cyfalaf mawr (>£1m) a gwblhawyd hyd yma ers 2014.

| Dyddiad Cwblhau | Prosiect | Cyllideb Wreiddiol (£m) | Alldro (£m) | Sylw |
|---|---|---|---|---|
| 2015 | Canolfan Adnoddau Gofal Cychwynnol Llangollen | 5.200 | 4.840 | |
| | Uned Mân Anafiadau Ysbyty Llandudno | 1.951 | 2.061 | Gwnaeth F&P gymeradwyo cymorth disgresiynol i uwchraddio'r cyflenwad trydanol ar draws y safle |
| 2016 | Ysbyty Tywyn | 5.063 | 5.354 | Ariannodd Cynghrair y Cyfeillion waith ychwanegol a ofynnwyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | amdano i'r fynedfa bresennol (heb fod o fewn cwmpas y prosiect)<br>Gwnaeth F&P gymeradwyo cymorth disgresiynol i uwchraddio'r seilwaith trydanol |
| 2017 | Canolfan Iechyd Cymuned "Prestatyn Iach" | 1.520 | 1.461 | |
| | Canolfan Adnoddau Gofal Cychwynnol Blaenau Ffestiniog | 3.994 | 4.204 | Gwnaeth Llywodraeth Cymru roi cymorth cyllid ychwanegol i newid rheoliadau statudol a Nodyn Arweiniad Adeiladau Iechyd Cymru |
| 2018 | Canolfan Adnoddau Gofal Cychwynnol Y Fflint | 5.036 | 4.768 | |
| | Gwaith gwrth-glymu i unedau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu i gleifion mewnol (MHLD) | 8.157 | 8.220 | Adroddwyd cynnydd bach i F&P a chafodd ei reoli'n dda fel rhan o'r rhaglen gyffredinol |
| | Theatrau Modiwlaidd Ysbyty Maelor Wrecsam (WMH) | 4.655 | 5.199 | Yn ystod y broses weithredu, gwnaeth y prosiect dynnu sylw at eiddilwch gwasanaethau peirianyddol yn WMH. Gwnaeth F&P gymeradwyo cymorth disgresiynol i ddarparu cyflenwad trydan, nwy a dŵr i'r theatrau modiwlaidd ac ar gyfer mesurau atal heintiau ychwanegol. |
| | Canolfan Is-ranbarthol ar gyfer Gofal Dwys i'r Newydd-anedig | 17.919 | 17.745 | |
| 2019 | Uned camddefnyddio sylweddau "The Elms" | 2.178 | 2.015 | |
| | Ysbyty Glan Clwyd (YGC) Theatr Hybrid | 2.500 | 2.160 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd | 13.893 | 13.923 | Adroddwyd cynnydd bach i F&P a chafodd ei reoli'n dda fel rhan o'r rhaglen gyffredinol |

**Llywodraethu a rheoli prosiectau**

C. Ar wahân i unrhyw faterion penodol y sonnir amdanynt uchod, pa wersi allweddol eraill y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u dysgu a sut caiff y dysgu hwnnw ei gymhwyso i drefniadau rheoli a llywodraethu prosiectau ar gyfer prosiectau cyfalaf sylweddol eraill?

A. Fel y'i nodwyd yn flaenorol, yn dilyn comisiynu adolygiad allanol, gwnaeth y Bwrdd Iechyd roi strwythurau a phrosesau diwygiedig o ran llywodraethu a rheoli ar waith ar gyfer yr holl brosiectau cyfalaf. Mae hyn yn cynwys cyflwyno *Llawlyfr Gweithdrefnau Rheoli Prosiectau Cyfalaf* fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Cyllid & Pherfformiad. Caiff y llawlyfr ei fandadu i reoli gwariant cyfalaf sy'n gysylltiedig â phrosiectau o bob math. Mae'r llawlyfr yn diffinio'r broses o benderfynu ar fuddsoddiadau, lefelau awdurdod a hierarchaeth adrodd. Mae'n disgrifio proses datblygu, craffu a chymeradwyo achosion busnes ac mae'n rhestru'r prosesau sydd eu hangen ar gyfer prosiectau cyfalaf, fesul cam. Mae'n darparu cyfres o ddogfennau gweithdrefnol safonol gan sicrhau bod templed cyffredin ar gyfer llywio a rheoli. Mae'r llawlyfr yn alinio â Gorchmynion Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd ynghyd ag Arweiniad ar Fuddsoddi mewn Seilwaith GIG Cymru gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n ofynnol ei ddarllen ochr yn ochr â'r canllawiau hyn.

Caiff yr argymhellion a restrir yn yr holl adroddiadau archwilio cyfalaf eu holrhain a'u monitro gan y Pwyllgor Archwilio. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i adolygu proses llywodraethu a rheoli prosiectau cyfalaf yn unol ag argymhellion archwilio ac anghenion y sefydliad. Mae rhaglen archwilio cyfalaf blynyddol wedi'i chyflwyno ac mae 16 o archwiliadau cyfalaf wedi'u cynnal ers 2014. Gellir nodi, yn dilyn sefydlu trefniadau cryfach ar gyfer llywodraethu cyfalaf yn 2015, bod perfformiad wedi gwella fel y'i nodir yn y tabl isod.

| 2014 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Prosiect Ailddatblygu YGC<br>Dim sicrwydd | Camau dilynol yn YGC<br>Dim barn - oherwydd cyfnod cyfyngedig ers yr adroddiad cychwynnol (fodd bynnag, nodwyd bod 12 gweithred o blith 40 yn dal i fod heb eu cwblhau) | | Camau dilynol pellach yn YGC<br>Sicrwydd cyfyngedig | | | YGC – archwilio tryloyw a chyfran colled/elw<br>(i wirio'r canlyniad terfynol)<br>Sicrwydd rhesymol |
| | Systemau Cyfalaf<br>Sicrwydd cyfyngedig | | | | Systemau cyfalaf<br>Sicrwydd rhesymol | |
| | Ysbyty Tywyn<br>Sicrwydd cyfyngedig | | | | | |
| | Canolfan Adnoddau Gofal Cychwynnol Llangollen<br>Sicrwydd cyfyngedig | | | | | |
| | Ysbyty Cymuned | | | | | Ysbyty Cymuned Gogledd Sir |

Tudalen y pecyn 17

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gogledd Sir Ddinbych Sicrwydd cyfyngedig | | | | | DdinbychSicrwydd rhesymol |
| | | Canolfan Is-ranbarthol ar gyfer Gofal Dwys i'r Newydd-anedig Sicrwydd rhesymol | | Canolfan Is-ranbarthol ar gyfer Gofal Dwys i'r Newydd-anedig Sicrwydd rhesymol | | |
| | | | Canolfan Adnoddau Gofal Cychwynnol Blaenau Ffestiniog Sicrwydd rhesymol | | | |
| | | | Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd Sicrwydd Rhesymol | | Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd Sicrwydd Rhesymol | |
| | | | | | | Cronfa Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau Sicrwydd rhesymol |

**ATODIAD 1**

**Gwersi posibl a ddysgwyd ar gyfer sefydliadau sy'n gleientiaid yn dilyn yr adolygiad annibynnol o gymorth allanol ar gyfer prosiect cyfalaf yng Ngogledd Cymru**

Cyflwyniad

Yn dilyn pryderon ynghylch cost gynyddol datblygiad cyfalaf a gaffaelwyd trwy'r fframwaith cenedlaethol, gwnaeth y Bwrdd Iechyd gomisiynu adolygiad annibynnol o'r cyngor a gafwyd.

Gwnaeth yr adroddiad dynnu sylw at bryderon mewn perthynas â'r cyngor a gafwyd ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi "gwersi a ddysgwyd" a allai fod yn berthnasol i'r holl sefydliadau sy'n gleientiaid yng Nghymru.

Diffyg eglurder o ran manylder ac addasu costau partner y gadwyn gyflenwi (SCP)

Ystyriaeth i gael ei rhoi p'un a ddylai lefel manylder gwybodaeth am gostau i'w mandadu i gefnogi achosion busnes cymhleth gael ei chynyddu, yn gymesur i'r risg bosibl sy'n gysylltiedig â'r cynllun.

Gwallau yn y gofrestr risg

Gwnaeth yr adolygiad ganfod meysydd arfer da ond nododd hefyd y dylai'r cofrestrau risg sicrhau'r canlynol:

- Bod gan bob risg berchnogaeth unigolyn yn hytrach na pherchnogaeth y sefydliad.
- Bod gan bob risg ddyddiad adolygu penodol.
- Ystyriaeth i gael ei rhoi o ran gallu prosiect i drin, goddef neu drosglwyddo risgiau er mwyn caniatáu canolbwyntio ar brif risgiau'r prosiect.

Pryderon ynghylch y rhaglen

Sicrhau bod rhaglenni prosiectau mawr yn adlewyrchu'r arfer gorau canlynol:

- Yn cynnig crynodeb pennawd o gerrig milltir allweddol
- Yn cynnig cysylltiadau rhesymol clir rhwng gweithgareddau gan ddiffinio'r llwybr critigol yn glir.
- Dylai pob diwygiad a wneir i'r rhaglen gynnwys llinell am ddyddiad ychwanegu'r data.
- Dylai pob rhaglen ddangos y llwytho gofynnol o ran adnoddau i benderfynu a yw'n realistig ac yn gyraeddadwy yng nghyd-destun amgylchedd y farchnad.
- Dylai "cronfa weithgarwch" y rhaglen adlewyrchu risg y prosiect yn llawn (fel y gofrestr risg) a dylai gael ei hadolygu'n gritigol er mwyn ystyried effaith ystyriaethau'n ymwneud ag adnoddau.

Dilysrwydd tystiolaeth ysgrifenedig (e-bost) i ategu newidiadau i delerau ac amodau

Dylai'r rheiny sy'n gyfrifol am reoli prosiectau cyfalaf sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau i delerau ac amodau contract yn cael eu rhoi ar waith trwy Weithred Amrywio ffurfiol ac nad ydynt yn dibynnu ar gyfnewid cadarnhad ysgrifenedig.

Pryderon ynghylch digonolrwydd a manwl-gywirdeb adrodd ar gostau

Byddai budd mewn datblygu templed cyffredin i adrodd ar gostau sy’n sicrhau bod yr holl adroddiadau ar gostau yn gwneud y canlynol:

- Cynnig dadansoddiad o amrywiadau gan gynnwys sylwebaeth i ganfod themâu a newidiadau dros amser
- Cynnig cymhariaeth o dargedau a chostau diffiniedig ac asesiad o gyfran buddion posibl
- Sicrhau bod yr holl ddigwyddiadau'n ymwneud ag iawndal yn cael eu hadrodd a'u costio'n unigol, heb fod mewn grwpiau, a rhestru cyfiawnhad a ffynhonnell y cyllid
- Sicrhau bod gwerth y trefniant wrth gefn yn adlewyrchu'r risgiau hyd at adeg cwblhau a'i fod yn cael ei alinio'n llawn â'r gofrestr risg
- Cynnig matrics o'r gost a wariwyd hyd yma ynghyd â'r amser sydd wedi mynd heibio

Dylid hefyd ystyried fuddion datblygu adrodd i ail lefel costau partner y gadwyn gyflenwi wedi'u categoreiddio'n ôl pennawd cost (elfen) ar gyfer prosiectau cyfalaf mawr, yn gymesur i gymhlethdod a risg.

Eitemau eraill sy'n deillio o'r adolygiad

- Mae arfer gorau yn argymell y dylai unigolyn gael ei enwi fel Rheolwr Prosiect yn hytrach na chwmni.
- Nodwyd nad yw'r term "swm dros dro" wedi'i gydnabod yng nghyfres contractau'r Contract Peirianneg Newydd (NEC). Dylai unrhyw lwfansau ar gyfer gwaith lle nad oes modd ei gwmpasu neu fanylu arno’n llawn o ddechrau'r prosiect gael eu rhestru a'u nodi fel "Risgiau Cyflogwyr" yng ngwybodaeth waith NEC.